Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cyllid cyfalaf addysg uwch 2026/27


**Dyddiad:** 28 Gorffennaf 2026

**Cyfeirnod:** Medr/2026/38


**At:** Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru

**Ymateb erbyn:** Nid oes angen ymateb


**Rhagor o wybodaeth:** Gareth Lanagan | BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru


**Crynodeb:**


Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi manylion am y sail y bydd cyfalaf yn cael ei ddyrannu i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2026/27 a'n dull o fonitro. Mae'r cyllid hwn yn ymwneud â blwyddyn academaidd 2026/27.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd cyllid cyfalaf o £10 miliwn ar gael i'w ddyrannu o fewn blwyddyn ariannol 2026-27. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i gefnogi blaenoriaethau strategol Medr.

## Sail dyrannu cyllid cyfalaf

2. Bydd y cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar ddull fformiwläig. Gan fod y cyllid i'w ddefnyddio, o leiaf yn rhannol, i gefnogi dysgu ac addysgu, profiad y myfyrwyr a seilwaith ar gyfer myfyrwyr, mae'r dyraniadau wedi'u pennu yn seiliedig ar niferoedd y myfyrwyr. Mae nifer y myfyrwyr mewn sefydliad yn ddirprwy rhesymol ar gyfer faint o ystad a chyfleusterau sydd eu hangen. Mae'r dull hwn yn gyson â dyraniadau cyfalaf blaenorol.

3. Y niferoedd myfyrwyr a ddefnyddir ar gyfer y dyraniad cychwynnol yw niferoedd cyfwerth ag amser llawn Cofnod Myfyrwyr HESA ar gyfer pob dull astudio, lefel a domisil yn seiliedig ar flwyddyn academaidd 2024/25. Dyma'r un sail a ddefnyddiwyd i ddyrannu'r rownd flaenorol o gyllid cyfalaf.

## Cymhwyso isafswm dyraniad cyllid

4. Er mwyn darparu cyllid cyfalaf a fydd yn caniatáu i bob sefydliad fuddsoddi mewn prosiectau a fydd yn cael effaith gynaliadwy, mae isafswm dyraniad o £750,000 wedi'i gymhwyso. O ystyried ei hystâd gyfyngedig yng Nghymru, bydd trothwy isaf o 50% (£375,000) wedi'i bennu ar gyfer y Brifysgol Agored i gyfrannu at brosiectau a fydd o fudd i fyfyrwyr Cymru.

5. Mae'r cyllid ar gyfer sefydliadau lle roedd y dyraniad gwreiddiol yn seiliedig ar eu myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn yn is na'r gwerth hwn wedi'i gynyddu i'r swm hwn ac yna mae'r myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y sefydliadau hynny wedi'u tynnu o'r cyfrifiad. Mae'r balans sy'n weddill o gyllid sydd ar gael wedi'i rannu rhwng y sefydliadau eraill yn seiliedig ar y myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn sy'n weddill yn y cyfrifiad.

6. Darperir y dyraniadau canlyniadol ar gyfer pob sefydliad yn **Atodiad A**.

## Cynllunio a monitro

7. Ni fydd yn ofynnol i sefydliadau gyflwyno cynlluniau i Medr ynghylch gwybodaeth am y prosiect(au) sy'n defnyddio'r buddsoddiad.

8. Mae Medr yn disgwyl i'r prosiectau sydd wedi defnyddio'r buddsoddiad cyfalaf fodloni'r meini prawf isod.

   a) **Aliniad strategol**
   haid i'r prosiect(au) gyd-fynd yn glir ag o leiaf un o nodau strategol Medr a chefnogi blaenoriaethau rhanbarthol neu genedlaethol perthnasol.

b) **Budd a llais myfyrwyr**
Rhaid i'r prosiect(au) fod o fudd i fyfyrwyr ac yn gwella profiad, canlyniadau, llesiant neu gyfranogiad myfyrwyr. Rhaid i'r sefydliad ymgysylltu â llais y myfyrwyr er mwyn datblygu'r prosiect(au) ar y cyd.

c) **Cynaliadwyedd ac effaith hirdymor**
Rhaid i'r buddsoddiad ddarparu gwerth parhaol, gan gynnwys y gallu i addasu yn y dyfodol, defnydd effeithlon o adnoddau, cyfraniad at sero net lle bo'n berthnasol, a buddion y gellir eu cynnal dros amser.

9. Byddwn yn parhau i fonitro metrigau HESA drwy’r datganiadau data cyhoeddedig ac felly dylai sefydliadau barhau i fod yn ymwybodol o’r effaith y gallai prosiectau ei chael arnynt.

10. Os yw sefydliad yn rhagweld na fydd yn gallu gwario ei ddyraniad llawn, dylai hysbysu Medr cyn gynted â phosibl a bydd unrhyw gronfeydd sy'n weddill yn cael eu hailddyrannu i sefydliadau eraill drwy'r dull fformiwläig a ddisgrifiwyd yn flaenorol.

11. Cynhelir ymarfer monitro yn 2027 i sicrhau bod y cyllid wedi'i ddefnyddio fel y bwriadwyd ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith y mae'r buddsoddiad wedi'i chael. Fel rhan o ymgysylltiad parhaus Medr â sefydliadau, cynhelir trafodaethau ym mis Ionawr i adolygu prosiectau a ariannwyd yn y flwyddyn academaidd flaenorol, ystyried cynnydd yn erbyn prosiectau sy'n cael eu cyflawni yn y flwyddyn academaidd gyfredol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd ariannu posibl yn y dyfodol lle bo modd.

12. Fel rhan o'r ymarferion monitro, disgwylir i sefydliadau ddarparu dadansoddiad o'r gwariant cyfalaf a manylion y prosiectau y mae'r cyllid wedi cyfrannu atynt. Disgwylir hefyd i sefydliadau ddarparu crynodeb ansoddol o'r canlyniadau a'r effeithiau cadarnhaol y mae'r buddsoddiad hwn wedi'u cael, gan gynnwys sut mae'r buddsoddiad wedi cefnogi blaenoriaethau strategol Medr a'r meini prawf a amlinellwyd uchod.

## Amserlen

13. Bydd Medr yn trefnu talu’r cronfeydd a ddyrannwyd i sefydliadau ym mis Hydref 2026.

14. Cynhelir trafodaethau â sefydliadau ym mis Ionawr 2027 i drafod cynnydd prosiectau, adolygu unrhyw danwariant gwirioneddol neu ddisgwyliedig a thrafod effeithiau prosiectau a fuddsoddwyd ynddynt yn y blynyddoedd blaenorol. Bydd ymgysylltiadau drwy gyflwyno ffurflenni, cyfarfodydd naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb lle mae Medr a'r sefydliad yn credu bod angen.

15. Gofynnir am ffurflen werthuso derfynol gan y sefydliad ym mis Gorffennaf 2027, yn darparu crynodeb o wariant, cyflawniad y prosiect a'r canlyniadau a gyflawnwyd.

## Gwybodaeth bellach

16. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

## Atodiad A: Model cyllido cyfalaf addysg uwch ychwanegol 2026/27

| Sefydliad | Myfyrwyr 2024/25 FTE | Dyraniadau pro rata i (£): FTE | Canran a neilltuwyd i bob sefydliad FTE |
|---|---|---|---|
| Prifysgol De Cymru | 16,494 | 1,361,238.90 | 17.56% |
| Prifysgol Aberystwyth | | 750,000.00 | 0.00% |
| Prifysgol Bangor | | 750,000.00 | 0.00% |
| Prifysgol Caerdydd | 28,020 | 2,312,472.05 | 29.84% |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 12,557 | 1,036,320.90 | 13.37% |
| Prifysgol Abertawe | 17,166 | 1,416,698.6 | 18.28% |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 11,032 | 910,463.66 | 11.75% |
| Prifysgol Wrecsam | | 750,000.00 | 0.00% |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 8,637 | 712,805.89 | 9.20% |
| **Cyfanswm** | **93,906** | **10,000,000.00** | **100%** |

**Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA 2024/25**

Ni ddefnyddir niferoedd myfyrwyr yn y cyfrifiad: Poblogaeth gofrestru safonol HESA, pob dull astudio, lefel a domisil.

Myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn a ddefnyddwyd yn y cyfrifiad: Poblogaeth Sesiwn HESA, pob dull astudio, lefel a domisil.

Sylwch fod talgrynnu wedi'i gymhwyso i werthoedd cyfwerth ag amser llawn yn dilyn eu defnyddio mewn cyfrifiadau.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government